

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
E-bost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 4 Medi 2015
Ein cyf: HVT/2382/fgb
Tudalen: 1 o 4

Annwyl Darren,

GWERTH AM ARIAN Y BUDDSODDIAD MEWN TRAFFYRDD A CHEFNFFYRDD - YMATEB LLYWODRAETH CYMRU

Roedd llythyr y Dirprwy Glerc dyddiedig 25 Awst yn gofyn am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fuddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi ei bod yn derbyn 17 allan o 18 argymhelliad y Pwyllgor, gan dderbyn yr argymhelliad sy'n weddill yn rhannol. Yn gyffredinol, credaf fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn foddhaol i'r argymhellion. Fodd bynnag, rwyf wedi tynnu sylw isod at rai meysydd ble gallai'r Pwyllgor geisio rhagor o wybodaeth o bosib, neu esboniad.

Argymhelliad 3: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ond efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a yw lefel y manylion sydd wedi'u rhoi'n bodloni ei ddisgwyliadau. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi cynnwys ymrwymiad mwy penodol o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau proses ymgynghori WeITAG ac wedyn nodi pryd yn union y byddai'n disgwyl cyhoeddi a gweithredu'r canllawiau adolygedig.

Argymhelliad 4: Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ac efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gwneud cais am ddiweddariad ar ganlyniad yr adolygiad o gontractau gwerth is, er mwyn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer defnydd optimwm o'r egwyddor ECI yn gynnar yn 2016.

Argymhelliad 5: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, nododd adroddiad y Pwyllgor ei fod yn bryderus am raddfa datblygiad strategaeth gwaith stryd Llywodraeth Cymru ac nid yw'r ymateb yn rhoi diweddariad penodol yn y cyswllt hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn ei thystiolaeth flaenorol i'r Pwyllgor y byddai'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi yn 2015. Mae i ba raddau y mae'r strategaeth gwaith stryd ddrafft yn rhoi sylw i faterion perthnasol i brosiectau mawr y rhwydwaith cefnffyrdd, yn hytrach na'r gwaith priffyrdd lleol, yn parhau'n aneglur.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo diweddariad pellach yn yr hydref ac efallai y bydd y Pwyllgor eisiau gofyn am ragor o fanylion am y pwyntiau penodol hyn fel rhan o'r diweddariad hwnnw, os na fydd y strategaeth gwaith stryd wedi'i chyhoeddi eisoes erbyn hynny.

Argymhelliad 6: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ac mae ganddi raglen yn ei lle i fonitro cyflwr y rhwydwaith o draffyrdd a chefnffyrdd. Fodd bynnag, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru am ragor o fanylion am y rhesymau dros ddirywiad y rhwydwaith o draffyrdd a chefnffyrdd, a chadarnhau ei ddisgwyliadau o ran cyhoeddi cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella cyflwr y rhwydwaith, er enghraifft, mewn perthynas â'r rhaglen waith flynyddol.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd y targed a ddatganwyd ganddi o ddim mwy nag wyth y cant o hyd y rhwydwaith angen gwaith cynnal a chadw ers 2010. I esbonio, rwyf yn deall bod adran o gefnffordd yn cael ei chofrestru ar gyfer y dangosydd hwn pan gredir - yn seiliedig ar gyfrif gallu strwythurol y ffordd a'r oes sydd ganddi'n weddill - bod angen cynnal ymchwiliad i benderfynu a oes angen gwneud gwaith cynnal a chadw ai peidio. Yn y [Bwletin Ystadegol ar Hyd a Chyflwr Ffyrdd, 2014](#) - y bwletin diweddaraf o'i fath i gael ei gyhoeddi, adroddwyd ar gyfer 2013 bod 14.3 y cant o'r rhwydwaith yn perthyn i'r categori hwn. Fodd bynnag, [mae'r wybodaeth berthnasol i'r Rhaglen Lywodraethu ar wefan Llywodraeth Cymru](#) yn cynnwys ffigur diweddarach ar gyfer 2014, sef 10.2 y cant. Nid yw'r naill ffynhonnell na'r llall yn nodi'r targed o wyth y cant yn ôl yr hyn a welir.

Mae adroddiad y Rhaglen Lywodraethu'n nodi bod canran y cefnffyrdd sydd angen eu cynnal a'u cadw, o'u hystyried ar y cyd â nifer y diffygion categori 1, yn dynodi perfformiad Llywodraeth Cymru o ran cynnal a chadw integrit'r rhwydwaith o draffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru. Diffygion categori 1 yw'r rhai sy'n beryglus, neu'n gallu bod yn beryglus, ac sydd felly angen sylw ar unwaith. Nid yw nifer y diffygion o'r fath yn cael eu cofnodi fel ystadegau swyddogol, ond maent yn seiliedig ar wybodaeth am reolaeth adrannol. Dim ond blynyddoedd calendr 2011-2013 sy'n rhan o'r [wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru](#) ond mae'n dynodi bod tua 12,100 o ddiffygion o'r fath wedi'u datgan yn ystod deunaw mis cyntaf y cyfnod hwnnw, o gymharu â thua 18,000 yn yr ail ddeunaw mis.

Argymhelliad 7: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ond nid yw'n glir sut yn union y bydd y cam gweithredu arfaethedig yn rhoi sylw i argymhelliad y Pwyllgor a'r flaenoriaeth yn y dyfodol i wariant, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau cydbwysedd yn y buddsoddiad rhwng prosiectau mawr a chynnal a chadw'r rhwydwaith presennol o gefnffyrdd.

Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio rhagor o dystiolaeth ei hun, gallai'r Pwyllgor ystyried cyfeirio ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn i sylw'r Pwyllgor Menter a Busnes, i'w ystyried fel rhan o graffu ar y gyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 13: Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn rhannol ond efallai y bydd y Pwyllgor eisiau esboniad ynghylch hyn. Nid yw'n ymddangos bod manylion yr ymateb yn rhoi sylw i ddyhead y Pwyllgor i ddatgan yn glir y camau sy'n weddill ar gyfer gweithredu adnodd rheoli gwybodaeth effeithiol. Rwyf yn cymryd yn ganiataol bod derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod eto, heb arbrawf pellach, a fydd yn ymarferol defnyddio system IRIS i reoli gwybodaeth am brosiectau mawr.

Argymhelliad 14: Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac wedi ymrwymo i astudiaeth o allu a chymhwysedd y sector adeiladu, yn ogystal â gwneud defnydd o waith parhaus gan 'Dyfodol Adeiladu Cymru' a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu adnodd rhagdybio llafur ar gyfer seilwaith trafniadaeth mawr. Ceir amrywiaeth o sgiliau arbenigol eraill (heb fod yn adeiladu) y mae eu hangen ar gyfer prosiectau mawr ac i gynnal a chadw'r rhwydwaith o draffyrdd a chefnffyrdd, fel peirianeg sifil, ymgynghori ar gost, ac ymgynghori amgylcheddol. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno cadarnhau bod y gwaith a ddisgrifir yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o sgiliau cysylltiedig.

Hefyd, nid yw'n glir oddi wrth yr ymateb a fyddai'r gwaith a ddisgrifir yn ystyried persbectif y sector cyhoeddus y cyfeiriodd y Pwyllgor ato yn ei argymhelliad, gan ystyried y math o archwiliad gallu a chymhwysedd yr oedd y Pwyllgor yn ei ystyried yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywodd gan yr Athro Smith.

Argymhelliad 16: Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a oes angen derbyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar y defnydd o sgriniau ar yr M4. Efallai y bydd yn ddigonol i'r Pwyllgor yn y pumed Cynulliad dderbyn un diweddariad yn unig, yn sgil casgliad y cyfnod prawf disgwylidig o dair blynedd.

Argymhelliad 17: Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno cael rhagor o fanylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ymhellach â defnyddwyr ffyrdd. Hefyd, efallai y bydd y Pwyllgor eisiau esboniad ynghylch a yw ymateb Llywodraeth Cymru'n awgrymu ei bod yn ystyried sefydlu trefniadau i efelychu gwaith Transport Focus (Passenger Focus gynt) yn Lloegr. Yn ychwanegol at gynrychioli teithwyr ar drafniadaeth gyhoeddus, mae Transport Focus erbyn hyn yn cynrychioli defnyddwyr y Rhwydwaith o Ffyrdd Strategol yn Lloegr yn unig.

Argymhelliad 18: Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru eisiau datblygu ei pherthynas gyda Highways England a cheir fforymau ar hyn o bryd ar gyfer gwella hyn. Fodd bynnag, nodir bod presenoldeb Llywodraeth Cymru yn y fforymau hyn wedi bod yn gyfyngedig yn ddiweddar ac efallai y bydd y Pwyllgor eisiau cael gwybod beth yw'r rheswm dros hyn, pa fath o bynciau a drafodir a pha wybodaeth a gyflwynir i'r cyhoedd.

Gobeithio bod y cyngor hwn o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU